**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2012**

## BWRDD RHANBARTHOL CYMUNEDAU DIOGELACH A CHOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â sefydlu Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach a phenodi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r paneli.

## Y Cefndir

### Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach

2 Yn ddiweddar, mae Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach, a Chytundeb Partneriaeth ar gyfer y Bwrdd, wedi cael eu cymeradwyo gan yr awdurdodau cyfansoddol. Diben y Bwrdd yw darparu cyfeiriad strategol ar gyfer swyddogaethau a gwasanaethau Diogelwch Cymunedol, Cyfiawnder Ieuenctid a Chyfiawnder Troseddol. Ar y Bwrdd, bydd y chwe awdurdod lleol, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac Ymddiriedolaeth Prawf Cymru (ac yn y pen draw Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu).

3 Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd newydd hwn ym mis Mehefin, a bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei gynrychioli gan Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Diogelwch Tân.

## Comisiynwyr a Phaneli'r Heddlu a Throseddu

4 Yn dilyn dyfodiad Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol y llynedd, bydd Awdurdodau'r Heddlu yn cael eu diddymu yn Nhachwedd 2012 ar ôl ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Hefyd, bydd Paneli'r Heddlu a Throseddu, gydag aelodau etholedig o awdurdodau lleol arnynt yn bennaf, yn cael eu sefydlu i gefnogi gwaith y Comisiynwyr, ac i graffu. Bydd gan y Comisiynwyr bwerau pwysig o ran cyfarwyddo blaenoriaethau ac adnoddau diogelwch cymunedol.

5 Yn Nhachwedd 2012, bydd ardal pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio Llundain, yn ethol "Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu" a fydd yn gyfrifol am weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol mewn ardaloedd lleol, ac am wireddu cynlluniau a blaenoriaethau plismona.

## Gwybodaeth

6 Bydd ATAGC yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Diogelach a fydd yn cynghori Comisiynydd yr Heddlu ar y blaenoriaethau ym maes Diogelwch Cymunedol yn y rhanbarthol. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn bartner pwysig yn y gwaith Diogelwch Cymunedol ar lefelau rhanbarthol a sirol, a bydd yn chwarae ei ran yn y Bwrdd rhanbarthol newydd hwn.

## Argymhelliad

7 Gofynnir i'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.